## ATODLEN 1

Erthygl 2

## DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 1 EBRILL 2011

| | |
|---|---|
| Adran 19 | Ystyr gwarchod plant a gofal dydd i blant |
| Adran 20 | Cofrestr o warchodwyr plant |
| Adran 21 | Dyletswydd gwarchodwyr plant i gofrestru |
| Adran 22 | Cofrestr o ddarparwyr gofal dydd i blant |
| Adran 23 | Dyletswydd darparwyr gofal dydd i gofrestru |
| Adran 24 | Ceisiadau i gofrestru: gwarchod plant |
| Adran 25 | Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant |
| Adran 26 | Ceisiadau i gofrestru: gofal dydd i blant |
| Adran 27 | Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru darparwyr gofal dydd i blant |
| Adran 28 | Cofnodi ar y gofrestr a thystysgrifau |
| Adran 29 | Amodau wrth gofrestru |
| Adran 30 | Rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau |
| Adran 31 | Diddymu cofrestriad |
| Adran 32 | Atal cofrestriad |
| Adran 33 | Tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol |
| Adran 34 | Amddiffyn plant mewn argyfwng: diddymu cofrestriad |
| Adran 35 | Amddiffyn plant mewn argyfwng: newidiadau i amodau |
| Adran 36 | Gweithdrefnau ar gyfer cymryd camau penodol |
| Adran 37 | Apelau |
| Adran 38 | Anghymhwyso rhag cofrestru |
| Adran 39 | Canlyniadau anghymwyso |
| Adran 40 | Arolygu |
| Adran 41 | Pwerau mynediad |
| Adran 42 | Pwerau arolygu |
| Adran 43 | Pŵer cwnstabl i gynorthwyo wrth arfer pwerau mynediad |
| Adran 44 | Cyflenwi gwybodaeth i Weinidogion Cymru |
| Adran 45 | Cyflenwi gwybodaeth i awdurdodau lleol |
| Adran 46 | Y tramgwydd o wneud datganiad anwir neu gamarweiniol |

| | |
|---|---|
| Adran 47 | Hysbysiadau o gosb |
| Adran 48 | Hysbysiadau o gosb: darpariaethau atodol |
| Adran 49 | Terfyn amser ar gyfer achosion |
| Adran 50 | Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol |
| Adran 51 | Cymdeithasau anghorfforedig |
| Adran 52 | Swyddogaethau awdurdodau lleol |
| Adran 53 | Ffioedd |
| Adran 54 | Cydweithredu rhwng awdurdodau |
| Adran 55 | Hysbysiadau |
| Adran 56 | Marwolaeth person cofrestredig |
| Adran 72 ac Atodlen 1 i'r graddau y maent yn ymwneud ag | (i) paragraffau 1 i 18;<br>(ii) paragraffau 21 i 28. |
| Adran 73 ac Atodlen 2 i'r graddau y maent yn ymwneud ag | (i) Deddf Plant 1989;<br>(ii) Deddf Addysg 2002; a<br>(iii) Deddf Gofal Plant 2006. |

## ATODLEN 2

Erthygl 4

## ARBEDION CYFFREDINOL

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon ac yn Atodlen 3—

mae i "Tribiwnlys Haen Gyntaf" ("*First-tier Tribunal*") yr ystyr a roddir i "First-tier Tribunal" yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**1**).

### Arbedion cyffredinol ar gyfer pethau a wnaed cyn y dyddiad perthnasol

**2.**—(1) Onid oes bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos yn Atodlen 3, ni fydd dyfodiad i rym y darpariaethau yn Atodlen 1 yn effeithio ar —

(a) unrhyw weithred a wneir, unrhyw hysbysiad a gyflwynir, unrhyw gais a wneir nac unrhyw benderfyniad a wneir; neu

(b) unrhyw ofyniad neu gyfyngiad amser; neu

(c) unrhyw achos cyfreithiol a gychwynnwyd; neu

(ch) unrhyw orchymyn a wnaed gan lys, gan ynad heddwch neu gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf

o dan, neu mewn perthynas ag unrhyw rai o'r darpariaethau a ddiwygiwyd neu a ddiddymwyd o ganlyniad i gychwyn Atodlenni 1 a 2 o'r Mesur.

(2) Mewn perthynas â'r darpariaethau a ddiwygiwyd neu a ddiddymwyd o ganlyniad i gychwyn Atodlenni 1 a 2 o'r Mesur, ceir dwyn neu barhau achosion cyfreithiol, a cheir gosod a gorfodi rhwymedïau neu gosbau mewn perthynas â gweithredoedd a wnaed o dan, mewn perthynas â, neu'n

(**1**) 2007 p.15.

groes i unrhyw rai o'r darpariaethau hynny cyn y dyddiad perthnasol, fel pe na bai'r diwygiadau neu'r ddiddymiadau wedi eu gwneud.

## ATODLEN 3

Erthygl 4

## ARBEDION A DARPARIAETHAU TROSIANNOL MEWN PERTHYNAS Å RHAN XA O DDEDDF 1989 AC ATODLEN 9A I'R DDEDDF HONNO, A RHAN 2 O'R MESUR

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "Rhan 2 o'r Mesur" ("*Part 2 of the Measure*") yw adrannau 19 i 56 o'r Mesur;

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002(**2**);

ystyr "Rheoliadau 2010" ("*the 2010 Regulations*") yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(**3**);

ystyr "Rheoliadau Atal 2004" ("*the Suspension Regulations 2004*") yw Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004(**4**);

ystyr "Gorchymyn Eithriadau 2010" ("*the Exceptions Order 2010*") yw Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010;

ystyr "Rheoliadau Anghymhwyso 2010" ("*the Disqualification Regulations 2010*") yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010(**5**);

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw 1 Ebrill 2011;

mae "trosglwyddo" ("*transfer*") mewn perthynas â chofrestru yn cyfeirio at y broses y gwneir darpariaeth ar ei chyfer ym mharagraff 2(2) a dehonglir "trosglwyddwyd" ("transferred") yn unol â hynny.

### Cofrestru Gwarchodwyr Plant a Darparwyr Gofal Dydd o dan Ran XA o Ddeddf 1989 ac Atodlen 9A i'r ddeddf honno ar 1 Ebrill 2011

**2.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â pherson sydd, yn union cyn y dyddiad perthnasol—

(a) wedi ei gofrestru fel gwarchodwr plant gan Weinidogion Cymru o dan adran 79(F)(1) o Ddeddf 1989 (*caniatáu neu wrthod cofrestriad*); neu

(b) wedi ei gofrestru fel darparydd gofal dydd i blant gan Weinidogion Cymru o dan adran 79(F)(2) o Ddeddf 1989.

(2) Yn effeithiol o'r dyddiad perthnasol ymlaen, at ddibenion Rhan 2 o'r Mesur, trinnir person y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) fel pe bai wedi gwneud cais am gofrestriad, a chofrestriad wedi ei ganiatáu iddo.

(3) Pan fo cofrestriad person wedi ei drosglwyddo yn unol ag is-baragraff (2), bydd unrhyw amod a osodwyd ar y person hwnnw o dan adran 79F(3) (*caniatáu neu wrthod cofrestriad*) neu 79M(2) (*apelau*) o Ddeddf 1989 ac a oedd yn gymwys i gofrestriad y person yn union cyn y dyddiad

(**2**) O.S.2002/812 (Cy.92).
(**3**) O.S.2010/2574 (Cy.214).
(**4**) O.S.2004/3282 (Cy.285).
(**5**) O.S.2010/1703 (Cy.163).

perthnasol, yn parhau i gael effaith fel pe bai'n amod a osodwyd o dan adran 29 (*amodau wrth cofrestru*) neu adran 37 (*apelau*) o'r Mesur.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff 14, mae'r paragraff yn gymwys hyd yn oed pan fo cofrestriad y person, yn union cyn y dyddiad perthnasol, wedi ei atal dros dro gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau 2004.

(5) Nid yw is-baragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â pherson a oedd, cyn y dyddiad perthnasol, wedi cyfleu i Weinidogion Cymru ei ddymuniad i beidio â bod yn gofrestredig fel gwarchodwr plant o dan adran 24 neu, yn ôl fel y digwydd, fel darparydd gofal dydd i blant o dan adran 26 o'r Mesur.

(6) Nid yw is-baragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â pherson a oedd, yn union cyn y dyddiad perthnasol, wedi ei gofrestru fel gwarchodwr plant o dan adran 79F(1) neu, yn ôl fel y digwydd, fel darparydd gofal dydd o dan adran 79F(2) o Ddeddf 1989 ac, ar y dyddiad perthnasol ac yn unol â dyfodiad i rym Gorchymyn Eithriadau 2010, nad yw bellach yn gymwys i gofrestru fel gwarchodwr plant o dan adran 24 neu, yn ôl fel y digwydd, fel darparydd gofal dydd i blant o dan adran 26 o'r Mesur.

### Tystysgrifau cofrestru

**3.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson y trosglwyddir ei gofrestriad yn unol â pharagraff 2(2).

(2) Nid yw'r trosglwyddiad yn gyfystyr â rhoi cofrestriad adran 28(1)(b) neu (2)(b) o'r Mesur (*cofnodi ar y gofrestr a thystysgrifau*).

(3) Bydd tystysgrif a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru i'r person hwnnw mewn perthynas â'r cofrestriad gwreiddiol o dan adran 79F o Ddeddf 1989, ac a oedd yn gyfredol yn union cyn y dyddiad perthnasol, yn cael effaith at bob diben, yn ddarostyngedig i is-baragraffau (4) a (5), fel pe bai wedi ei dyroddi ar y dyddiad perthnasol yn unol ag adran 28(1)(b) neu (2)(b) o'r Mesur.

(4) Nid yw adran 28(3) o'r Mesur yn cael effaith mewn perthynas â thystysgrif y cyfeirir ati yn is-baragraff (3).

(5) At ddibenion adran 28(4) o'r Mesur (sy'n darparu ar gyfer dyroddi tystysgrifau diwygiedig oherwydd newid yn yr amgylchiadau) a heb leihau dim ar ei heffaith fel arall, bydd achlysur yr arolygiad cyntaf ar ôl y dyddiad perthnasol gan arolygydd awdurdodedig—

(a) gwarchod plant, neu

(b) gofal dydd mewn unrhyw fangre,

a ddarperir gan berson y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo, yn gyfystyr â newid yn yr amgylchiadau at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â'r cofrestriad dan sylw.

### Personau nad ydynt yn gymwys i gofrestru o dan Ran XA o Ddeddf 1989 ac Atodlen 9A i'r Ddeddf honno cyn 1 Ebrill 2011

**4.**—(1) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i unrhyw berson ("gwarchodwr plant anghofrestredig") sydd, cyn y dyddiad perthnasol—

(a) yn anghymwys i gofrestru fel gwarchodwr plant o dan Ran XA o Ddeddf 1989 ac Atodlen 9A i'r Ddeddf honno ond y mae'n ofynnol iddo gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur;

(b) yn gofalu am blant sydd o dan wyth mlwydd oed am dâl, mewn mangre ddomestig; ac

(c) yn gwneud cais yn briodol cyn 1 Gorffennaf 2011 o dan adran 24 o'r Mesur am gofrestriad fel gwarchodwr plant.

(2) Nid yw'r darpariaethau o dan adran 21(1), (2), (5) a (6) o'r Mesur yn gymwys i warchodwr plant anghofrestredig o dan is-baragraff (1) mewn perthynas â'i fangre—

(a) hyd nes caniateir y cais, naill ai'n ddiamod neu'n ddarostyngedig yn unig i amodau sydd wedi eu cytuno mewn ysgrifen gyda Gweinidogion Cymru; neu

(b) os caniateir y cais yn ddarostyngedig i amodau nad ydynt wedi eu cytuno felly, neu os gwrthodir y cais—

(i) os na ddygir apêl, hyd nes daw'r cyfnod o 28 diwrnod i ben ar ôl cyflwyno'r hysbysiad i'r gwarchodwr anghofrestredig o'r penderfyniad gan Weinidogion Cymru; neu

(ii) os dygir apêl, hyd nes penderfynir neu y rhoddir y gorau i'r apêl.

(3) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i unrhyw berson ("darparydd anghofrestredig gofal dydd i blant") sydd, cyn y dyddiad perthnasol —

(a) yn anghymwys i gofrestru fel darparydd gofal dydd i blant o dan Ran XA o Ddeddf 1989 ac Atodlen 9A i'r Ddeddf honno;

(b) yn gofalu am blant sydd o dan wyth mlwydd oed am dâl, mewn mangre ac eithrio mangre ddomestig; ac

(c) yn gwneud cais yn briodol cyn 1 Gorffennaf o dan adran 26 o'r Mesur am gofrestriad fel darparwr gofal dydd i blant.

(4) Nid yw'r darpariaethau o dan adran 23(1) a (2) o'r Mesur yn gymwys i ddarparydd gofal dydd i blant anghofrestredig o dan is-baragraff (3) mewn perthynas â'i fangre —

(a) hyd nes caniateir y cais, naill ai'n ddiamod neu'n ddarostyngedig yn unig i amodau sydd wedi eu cytuno mewn ysgrifen gyda Gweinidogion Cymru; neu

(b) os caniateir y cais yn ddarostyngedig i amodau nad ydynt wedi eu cytuno felly, neu os gwrthodir y cais—

(i) os na ddygir apêl, hyd nes daw'r cyfnod o 28 diwrnod i ben ar ôl cyflwyno'r hysbysiad i'r darparydd anghofrestredig o'r penderfyniad gan Weinidogion Cymru; neu

(ii) os dygir apêl, hyd nes penderfynir neu y rhoddir y gorau i'r apêl.

### Ceisiadau am gofrestriad o dan Ran XA o Ddeddf 1989 ac Atodlen 9A i'r Ddeddf honno: ceisiadau nas penderfynwyd

**5.**—(1) Pan fo person wedi gwneud cais am gofrestriad fel gwarchodwr plant o dan adran 79E o Ddeddf 1989 (*ceisiadau i gofrestru*), a Gweinidogion Cymru, yn union cyn y dyddiad perthnasol, heb ganiatáu neu wedi gwrthod cais y person hwnnw, rhaid penderfynu'r cais fel pe bai wedi ei wneud o dan adran 24 o'r Mesur (*ceisiadau i gofrestru: gwarchod plant*).

(2) Pan fo person wedi gwneud cais am gofrestriad fel darparydd gofal dydd o dan adran 79E o Ddeddf 1989 (ceisiadau i gofrestru), a Gweinidogion Cymru, yn union cyn y dyddiad perthnasol, heb ganiatáu neu wedi gwrthod cais y person hwnnw, rhaid penderfynu'r cais fel pe bai wedi ei wneud o dan adran 26 o'r Mesur (*ceisiadau i gofrestru: gofal dydd i blant*).

(3) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, ni chaiff Gweinidogion Cymru gofrestru'r person hwnnw ac eithrio pan fyddai wedi bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ganiatáu'r cais, pe bai'r cais wedi ei wneud o dan adran 24 neu, yn ôl fel y digwydd, adran 26 o'r Mesur.

### Hysbysiad o fwriad i wrthod cais i gofrestru o dan adran 79L(1)(a) o Ddeddf 1989

**6.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru, cyn y dyddiad perthnasol, wedi anfon hysbysiad at berson o'u bwriad i wrthod cais i gofrestru o dan adran 79(L)(1)(a) o Ddeddf 1989 (*hysbysiad o fwriad i gymryd camau*).

(2) Bydd yr hysbysiad yn cael ei drin, ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol, fel hysbysiad a roddwyd o dan adran 36(3) o'r Mesur (*gweithdrefnau ar gyfer cymryd camau penodol*) .

(3) Bydd y person sydd, cyn y dyddiad perthnasol, wedi rhoi gwybod i Weinidogion Cymru, yn unol ag adran 79L(3) o Ddeddf 1989, am ei ddymuniad i wrthwynebu cymryd y cam hwnnw, yn cael ei drin fel pe bai wedi rhoi hysbysiad o dan adran 36(6) o'r Mesur.

(4) Bydd gwrthwynebiad, a wnaed o dan adran 79L(3) o Ddeddf 1989 cyn y dyddiad perthnasol yn erbyn cymryd cam, yn cael ei drin ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai wedi ei wneud yn unol ag adran 36(6) o'r Mesur.

(5) Bydd hysbysiad, a anfonwyd at y person yn unol ag adran 79L(5) o Ddeddf 1989 cyn y dyddiad perthnasol, yn cael ei drin ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai'n hysbysiad a roddwyd yn unol ag adran 36(8) o'r Mesur.

(6) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, bydd hysbysiad yn parhau i gael effaith i'r graddau hynny, yn unig, ag y câi effaith pe bai wedi ei roi o dan adran 36 o'r Mesur.

### Hysbysiad o fwriad i gymryd camau o dan adran 79L(1)(b) i (d) o Ddeddf 1989

**7.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan drosglwyddir cofrestriad person yn unol â pharagraff 2(2);

(b) pan fo Gweinidogion Cymru, cyn y dyddiad perthnasol, wedi anfon hysbysiad at y person o'u bwriad i gymryd un o'r camau a grybwyllir yn adran 79L(1)(b) i (d) o Ddeddf 1989; ac

(c) y cam hwnnw heb gael effaith.

(2) Bydd hysbysiad a anfonwyd at y person o dan adran 79L(1) yn cael ei drin, ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol, fel pe bai'n hysbysiad a roddwyd o dan adran 36(3) o'r Mesur.

(3) Bydd person sydd, cyn y dyddiad perthnasol, wedi rhoi gwybod i Weinidogion Cymru, yn unol ag adran 79L(3) o Ddeddf 1989, am ei ddymuniad i wrthwynebu cymryd y cam hwnnw, yn cael ei drin fel pe bai'r person hwnnw wedi rhoi hysbysiad o dan adran 36(6) o'r Mesur.

(4) Bydd gwrthwynebiad, a wnaed o dan adran 79L(3) o Ddeddf 1989 cyn y dyddiad perthnasol yn erbyn cymryd cam, yn cael ei drin ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai wedi ei wneud yn unol ag adran 36(6) o'r Mesur.

(5) Bydd hysbysiad, a anfonwyd gan Weinidogion Cymru at y person yn unol ag adran 79L(5) o Ddeddf 1989 cyn y dyddiad perthnasol, yn cael ei drin ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai'n hysbysiad a roddwyd yn unol ag adran 36(8) o'r Mesur.

(6) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, bydd hysbysiad yn parhau i gael effaith i'r graddau hynny, yn unig, ag y câi effaith pe bai wedi ei roi o dan adran 36 o'r Mesur.

### Apelau yn erbyn camau a grybwyllir yn adran 79L(1) o Ddeddf 1989

**8.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo apêl wedi ei gwneud, cyn y dyddiad perthnasol, i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 79M(1) o Ddeddf 1989 (*apelau*), yn erbyn cam a gymerwyd gan Weinidogion Cymru ac a grybwyllir yn adran 79L(1), ac nad yw'r Tribiwnlys wedi cyrraedd penderfyniad o dan adran 79M(2) mewn perthynas â'r apêl.

(2) Bydd yr apêl, ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol, yn cael ei drin fel pe bai'n apêl o dan adran 37 o'r Mesur (*apelau*).

(3) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid penderfynu'r apêl fel pe bai'r cam y gwnaed yr apêl mewn perthynas ag ef wedi ei gymryd o dan y Mesur.

### Apelau: amddiffyn plant mewn argyfwng

**9.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo apêl wedi ei gwneud, cyn y dyddiad perthnasol, i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 79M(1) o Ddeddf 1989, yn erbyn gorchymyn o dan adran 79K o

Ddeddf 1989 (*amddiffyn plant mewn argyfwng*), ac nad yw'r Tribiwnlys wedi cyrraedd penderfyniad o dan adran 79M(2) mewn perthynas â'r apêl.

(2) Rhaid trin yr apêl, ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol, fel pe bai'n apêl o dan adran 37 o'r Mesur.

**Apelau: anghymhwyso**

**10.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo apêl wedi ei gwneud, cyn y dyddiad perthnasol, i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 79M(1) o Ddeddf 1989, yn erbyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 9 o Reoliadau Anghymhwyso 2010, ac nad yw'r Tribiwnlys wedi cyrraedd penderfyniad o dan adran 79M(2) mewn perthynas â'r apêl.

(2) Yn ddarostyngedig i erthygl 3, bydd yr apêl, ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol, yn cael ei drin fel pe bai'n apêl a wnaed yn unol â Rheoliadau Anghymhwyso 2010 a bydd yn cael ei benderfynu yn unol ag adran 79M o Ddeddf 1989.

**Hysbysiad o dan adran 79D o Ddeddf 1989**

**11.** Pan fo Gweinidogion Cymru, cyn y dyddiad perthnasol, wedi cyflwyno hysbysiad gorfodi o dan adran 79D(2) o Ddeddf 1989, bydd yr hysbysiad yn parhau i gael effaith ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol fel pe bai wedi ei gyflwyno o dan adran 21(3) o'r Mesur (*dyletswydd gwarchodwyr plant i gofrestru*).

**Hysbysiadau cydymffurfio o dan Reoliadau 2002**

**12.** Pan fo Gweinidogion Cymru, cyn y dyddiad perthnasol, wedi dyroddi hysbysiad cydymffurfio yn unol â rheoliad 3C o Reoliadau 2002 (*hysbysiad cydymffurfio*), bydd yr hysbysiad hwnnw, ar neu ar ôl y dyddiad perthnasol, yn cael ei drin fel pe bai wedi ei roi o dan reoliad 18 o Reoliadau 2010.

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

**13.** Wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Mesur, caiff Gweinidogion Cymru roi sylw i'r canlynol—

(a) unrhyw beth a wneir, neu'r honnir iddo gael ei wneud, gan berson a gofrestrwyd o dan Ran XA o Ddeddf 1989 ac Atodlen 9A i'r Ddeddf honno i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir gan reoliad 23 o Reoliadau 2002 (*safonau*);

(b) unrhyw fethiant, neu fethiant honedig, gan berson a gofrestrwyd o dan Ran XA o Ddeddf 1989 ac Atodlen 9A i'r Ddeddf honno i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir gan reoliad 24 o Reoliadau 2002.

**Atal**

**14.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo cofrestriad person, yn union cyn y dyddiad perthnasol, wedi ei atal gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 3 o reoliadau Atal 2004 *(pŵer i atal cofrestriad*).

(2) Bydd cofrestriad y person, ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol, yn cael ei drin fel pe bai wedi ei atal gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 40 o Reoliadau 2010 (*pŵer i atal cofrestriad*).

(3) Pan fo person wedi apelio i'r Tribiwnlys o dan reoliad 8 o Reoliadau Atal 2004 (*hawliau i apelio*) ac nad yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi cyrraedd penderfyniad, bydd yr apêl, ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol, yn cael ei drin fel pe bai wedi ei gwneud o dan reoliad 45 o Reoliadau 2010 (*hawliau i apelio*).

**Anghymhwyso: hepgoriadau**

**15.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru, cyn y dyddiad perthnasol, wedi rhoi caniatâd i hepgor anghymhwysiad o dan reoliad 9 o Reoliadau Anghymhwyso 2010 (a heb dynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl), bydd y caniatâd hwnnw'n parhau i gael effaith ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol.

(2) Pan fo person, cyn y dyddiad perthnasol, wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru roi caniatâd i hepgor anghymhwysiad o dan reoliad 9 o Reoliadau Anghymhwyso 2010, a bod Gweinidogion Cymru, yn union cyn y dyddiad perthnasol, heb wneud penderfyniad mewn perthynas â'r cais hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y penderfyniad yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau Anghymhwyso 2010.

(3) Bydd caniatâd a roddir gan awdurdod lleol, ac y cyfeirir ato yn rheoliad 9(3)(b) o Reoliadau Anghymhwyso 2010, yn parhau i gael effaith ar ac ar ôl y dyddiad perthnasol.

**Amddiffyn plant mewn argyfwng: cais o dan adran 79K o Ddeddf 1989**

**16.** Pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud cais i ynad heddwch am orchymyn—

(a) sy'n diddymu cofrestriad person o dan adran 79K(1)(a)(i) (amddiffyn plant mewn argyfwng) o Ddeddf 1989, ac ynad heddwch, yn union cyn y dyddiad perthnasol, heb wneud y gorchymyn hwnnw, rhaid trin y cais, ar ac ar ôl y dyddiad hwnnw, fel pe bai wedi ei wneud o dan adran 34 o'r Mesur (*amddiffyn plant mewn argyfwng: diddymu cofrestriad*);

(b) sy'n gofyn am amrywio neu dynnu ymaith amod, neu osod amod newydd ar gofrestriad person o dan, yn eu trefn, adran 79K(1)(a)(ii) neu (iii) o Ddeddf 1989 ac ynad heddwch, yn union cyn y dyddiad perthnasol, heb wneud y gorchymyn hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru dynnu'r cais yn ôl a gweithredu yn unol ag adran 35 o'r Mesur (*amddiffyn plant mewn argyfwng: newidiadau i amodau*).